nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig

Cyhoeddiad gwreiddiol: **17 Mai 2018**



# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Gwybodaeth am ein safonau** 5

**Platfform 1**
Bod yn weithiwr proffesiynol atebol 10

**Platfform 2**
Hybu iechyd ac atal salwch 13

**Platfform 3**
Asesu anghenion a chynllunio gofal 16

**Platfform 4**
Darparu a gwerthuso gofal 19

**Platfform 5**
Arwain a rheoli gofal nyrsio a gweithio mewn timau 22

**Platfform 6**
Gwella diogelwch ac ansawdd gofal 25

**Platfform 7**
Cydlynu gofal 28

**Atodiad A:**
Sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau 31

**Atodiad B:**
Gweithdrefnau nyrsio 36

**Geirfa** 45


Cafodd y safonau hyn sydd wedi'u diweddaru eu cymeradwyo gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar 28 Mawrth 2018. Cawsant eu hailgynllunio ym mis Mawrth 2024.

# Cyflwyniad

Mae gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ddyletswydd i adolygu'r safonau hyfedredd y mae'n eu pennu ar gyfer y proffesiynau y mae'n eu cofrestru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod safonau yn parhau i fod yn gyfoes ac yn addas at y diben er mwyn diogelu'r cyhoedd. Wrth adolygu'r safonau, rydym wedi ystyried y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas ac ym maes gofal iechyd, a goblygiadau hyn i nyrsys cofrestredig y dyfodol o ran eu rôl, gwybodaeth a sgiliau gofynnol.

Felly, mae'r safonau hyfedredd yn y ddogfen hon yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig eu dangos wrth ofalu am **pobl** o bob oed ac ym mhob lleoliad gofal. Maent yn adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl i nyrsys ei wybod a gallu ei wneud er mwyn darparu gofal nyrsio diogel, trugarog ac effeithiol.

Maent hefyd yn darparu meincnod i nyrsys o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac o dramor sydd am ymuno â'r gofrestr yn y DU, yn ogystal â'r rheini sy'n bwriadu ailddechrau ymarfer ar ôl cyfnod o absenoldeb.

## Rôl y Nyrs yn yr 21ain Ganrif

Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu, arwain a chydlynu gofal sy'n drugarog, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain a rhaid iddynt allu gweithio'n annibynnol, neu fel partner cydradd gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill, ac o fewn timau rhyngddisgyblaethol. Er mwyn ymateb i effaith a gofynion ymarfer nyrsio proffesiynol, rhaid iddynt fod yn unigolion gwydn a deallus yn emosiynol, a all reoli eu hiechyd a'u lles personol eu hunain, a gwybod pryd a sut i gael cymorth.

Mae nyrsys cofrestredig yn gwneud cyfraniad pwysig at hybu iechyd, diogelu iechyd ac atal salwch. Maent yn gwneud hyn drwy rymuso pobl, cymunedau a phoblogaethau i arfer dewis, cymryd rheolaeth dros eu penderfyniadau ac ymddygiadau iechyd eu hunain a helpu pobl i reoli eu gofal eu hunain lle bo modd.

Mae nyrsys cofrestredig yn darparu arweinyddiaeth wrth ddarparu gofal i bobl o bob oed ac o wahanol gefndiroedd, diwylliannau a chredoau. Maent yn darparu gofal nyrsio i bobl sydd ag anghenion gofal meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol cymhleth, pobl â dementia, yr henoed a phobl ar ddiwedd eu hoes. Rhaid iddynt allu gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain, yn y gymuned neu ysbyty neu mewn unrhyw leoliad gofal iechyd lle caiff eu hanghenion eu cefnogi a'u rheoli.

Maent yn gweithio yng nghyd-destun newid parhaus, amgylcheddau heriol, modelau darparu gofal gwahanol, demograffeg newidiol, datblygiadau arloesol a thechnolegau sy'n datblygu'n gyflym. Wrth i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael eu hintegreiddio fwyfwy, bydd angen i nyrsys cofrestredig drafod ffiniau a chwarae rhan weithredol mewn timau rhyngddisgyblaethol. Felly, mae'r hyder a'r gallu i feddwl yn feirniadol, cymhwyso gwybodaeth a sgiliau a darparu gofal nyrsio uniongyrchol arbenigol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wrth wraidd ymarfer nyrsio cofrestredig yn ei gyfanrwydd.

# Gwybodaeth am ein safonau

Mae'r safonau hyfedredd hyn yn berthnasol i holl fydwragedd yr NMC. Dylid eu darllen ar y cyd â Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sy'n datgan ein disgwyliadau o safbwynt darparu pob rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru ac ar ôl cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg cymeradwy ac fe'u rhennir yn dair rhan: Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr Rhan 3: Safonau rhaglenni, sy'n safonau penodol ar gyfer pob rhaglen cyn cofrestru ac ar ôl cofrestru.

Gyda'i gilydd, mae'r safonau hyn yn anelu at roi'r hyblygrwydd i sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a'u partneriaid dysgu ymarfer ddatblygu dulliau arloesol o addysgu nyrsys a bydwragedd, tra'n bod yn gyfrifol am gyflwyno a rheoli rhaglenni cymeradwy'r NMC yn lleol yn unol â'n safonau. Dangosir y berthynas rhwng y gwahanol setiau o safonau yn y diagram ar y dudalen nesaf.

# Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

## Rhan 1





## Rhan 2





## Rhan 3 - Safonau rhaglenni

### Cyn-cofrestru




### Ôl-cofrestru




# Safonau hyfedredd



## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 15(1) o Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn')[1] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd ar gyfer ymuno â'r gofrestr, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) o'r Gorchymyn. Caiff y safonau ar gyfer darparwyr addysg nyrsio a bydwreigiaeth eu sefydlu yn unol â darpariaethau Erthygl 15(1) o'r Gorchymyn.

Mae Erthygl 5(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC bennu'r safonau hyfedredd sydd eu hangen er mwyn ymuno â phob rhan o'r gofrestr ac er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o dan y rhan honno o'r gofrestr. Mae'r safonau hyfedredd wedi cael eu pennu o dan y ddarpariaeth hon.

1 SI 2002/253

# Sut mae'r safonau hyfedredd wedi cael eu strwythuro

Mae'r safonau hyfedredd wedi'u grwpio o dan saith llwyfan, a ddilynir gan ddau atodiad. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn adlewyrchu'r hyn rydym yn disgwyl i nyrs sydd newydd gofrestru ei wybod a gallu ei wneud yn ddiogel ac yn fedrus ar ddechrau ei gyrfa.

Caiff elfennau allweddol rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd nyrsys cofrestredig eu disgrifio o dan bob un o'r saith llwyfan. Credwn fod hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth y cyhoedd a'r proffesiynau o'r wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol y gallant eu disgwyl gan bob nyrs gofrestredig.

Bydd y safonau hyfedredd hyn yn sicrhau bod gan raddedigion newydd yn y proffesiwn y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar adeg cofrestru, a ddatblygir ganddynt wrth iddynt feithrin profiad wrth ymarfer a chyflawni eu cyfrifoldeb proffesiynol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn barhaus. Er enghraifft, ar ôl iddynt gofrestru â ni, bydd nyrsys cofrestredig eisoes yn gallu datblygu i ennill cymhwyster rhagnodi.

**Y llwyfannau yw:**

1. **Bod yn weithiwr proffesiynol atebol**
2. **Hybu iechyd ac atal salwch**
3. **Asesu anghenion a chynllunio gofal**
4. **Darparu a gwerthuso gofal**
5. **Arwain a rheoli gofal nyrsio a gweithio mewn timau**
6. **Gwella diogelwch ac ansawdd gofal**
7. **Cydlynu gofal**

Mae'r datganiadau deilliannau ar gyfer pob llwyfan wedi'u cynllunio i fod yn gymwys yn y pedwar maes ymarfer nyrsio (oedolion, plant, anableddau dysgu, iechyd meddwl) a phob lleoliad gofal. Y rheswm dros hyn yw bod yn rhaid i nyrsys cofrestredig allu diwallu anghenion gofal holistaidd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, pobl maent yn dod ar eu traws wrth ymarfer, a all fod ar unrhyw gam mewn bywyd ac a all fod ag amrywiaeth o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol neu ymddygiadol.

Rhaid iddynt allu dangos mwy o wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol, mwy datblygedig sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion gofal penodol yn eu dewis feysydd ymarfer nyrsio.

Cyflwynir yr atodiadau i'r safonau hyfedredd hyn mewn dwy adran. Mae'r atodiadau yn disgrifio'r hyn y dylai nyrsys cofrestredig fod yn gallu ei wneud ar adeg cofrestru, er mwyn darparu gofal nyrsio diogel.

Mae **Atodiad A** yn nodi'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau sydd eu hangen, ac mae **Atodiad B** yn nodi'r gweithdrefnau nyrsio y mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig ddangos eu bod yn gallu eu cyflawni'n ddiogel. Fel y safonau hyfedredd gwybodaeth, mae'r atodiadau hefyd yn nodi'r meysydd lle mae angen sgiliau mwy datblygedig ar nyrsys cofrestredig sy'n gweithio mewn maes ymarfer nyrsio penodol.

# Platfform 1
## Bod yn weithiwr proffesiynol atebol

Mae nyrsys cofrestredig yn gweithredu er budd pobl, gan eu rhoi yn gyntaf a darparu gofal nyrsio diogel a thrugarog, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn gweithredu'n broffesiynol drwy'r amser ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i wneud penderfyniadau am ofal yn seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol, yn fodelau rôl i eraill ac yn atebol am eu gweithredoedd. Mae nyrsys cofrestredig yn myfyrio ar eu hymarfer yn barhaus ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau ym meysydd nyrsio, iechyd a gofal.

## Deilliannau

Mae'r deilliannau isod yn adlewyrchu safonau hyfedredd ymarfer proffesiynol atebol y mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig eu cyrraedd, fel y disgrifir yn llwyfannau 2-7, ym mhob lleoliad gofal a maes ymarfer.

**Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:**

**1.1** deall Y Cod (2015): Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd, gweithredu yn unol ag ef a bodloni'r holl ofynion cofrestru

**1.2** deall a chymhwyso'r gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu, polisïau a fframweithiau moesegol, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau adrodd gorfodol, ym mhob maes ymarfer, gan wahaniaethu, lle bo'n briodol, rhwng deddfwrfeydd datganoledig y Deyrnas Unedig

**1.3** deall a chymhwyso egwyddorion dewrder, tryloywder a gonestrwydd, gan gydnabod a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd, ymddygiadau neu gamgymeriadau a allai arwain at ganlyniadau gofal gwael

**1.4** dangos dealltwriaeth o ymddygiad sy'n gwahaniaethu a'r gallu i'w herio

**1.5** deall gofynion ymarfer proffesiynol a dangos sut i adnabod arwyddion bod y nyrs ei hun neu gydweithwyr yn agored i niwed a'r camau sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg i iechyd

**1.6** deall y cyfrifoldeb proffesiynol i fabwysiadu ffordd o fyw iach er mwyn cynnal lefel ffitrwydd a lles sydd ei hangen er mwyn diwallu anghenion pobl o ran gofal meddwl a chorfforol

**1.7** dangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil, moeseg a llywodraethu er mwyn dadansoddi canfyddiadau ymchwil yn feirniadol, eu defnyddio'n ddiogel, eu rhannu a'u rhoi ar waith wrth hyrwyddo a llywio ymarfer nyrsio gorau

**1.8** dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i feddwl yn feirniadol wrth gymhwyso tystiolaeth a phrofiad er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob sefyllfa

**1.9** deall yr angen i wneud pob penderfyniad ynghylch gofal ac ymyriadau ar sail anghenion pobl a'r hyn sy'n well ganddynt, gan gydnabod ac ymdrin ag unrhyw ffactorau personol ac allanol a all gael dylanwad gormodol ar eich penderfyniadau

**1.10** dangos gwydnwch a deallusrwydd emosiynol a gallu egluro'r rhesymeg sy'n dylanwadu ar eich dyfarniadau a'ch penderfyniadau mewn sefyllfaoedd arferol, cymhleth a heriol

**1.11** cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a strategaethau gyda chydweithwyr a phobl ar bob cam mewn bywyd ac sy'n wynebu amrywiaeth o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol

**1.12** dangos y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn cynorthwyo pobl ar bob cam mewn bywyd sy'n agored i niwed yn emosiynol neu'n gorfforol

**1.13** dangos y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn datblygu, rheoli a chynnal cydberthnasau priodol â phobl, eu teuluoedd, gofalwyr a chydweithwyr

**1.14** darparu a hybu gofal sensitif, nad yw'n gwahaniaethu, ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy'r amser, gan fyfyrio ar werthoedd a chredoau, cefndiroedd amrywiol, nodweddion diwylliannol, a gofynion, anghenion a dewisiadau ieithyddol pobl, a chan ystyried unrhyw addasiadau angenrheidiol

**1.15** dangos y sgiliau rhifedd, llythrennedd, digidol a thechnolegol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion pobl yn ei gofal a sicrhau ymarfer nyrsio diogel ac effeithiol

**1.16** dangos y gallu i gadw cofnodion cyflawn, clir, cywir ac amserol

**1.17** bod yn gyfrifol am hunanfyfyrio'n barhaus, gan geisio cymorth ac adborth ac ymateb iddynt er mwyn datblygu ei gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

**1.18** dangos y wybodaeth a'r hyder i chwarae rhan effeithiol a rhagweithiol mewn tîm rhyngddisgyblaethol

**1.19** gweithredu fel cennad, gan gynnal enw da eich proffesiynol a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau nyrsio, iechyd a gofal

**1.20** dangos yn ddiogel ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob sgil a gweithdrefn a nodir yn Atodiadau A a B.

# Platfform 2
## Hybu iechyd ac atal salwch

Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella a chynnal iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau. Maent yn cefnogi ac yn galluogi pobl sydd ar bob cam o'u bywyd ac sydd ym mhob lleoliad gofal i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch sut i reoli heriau iechyd er mwyn mwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl a gwella canlyniadau iechyd. Maent yn ymwneud â'r gwaith o atal clefyd a salwch a diogelu rhagddynt, ynghyd ag ymwneud ag agendâu iechyd y cyhoedd, datblygu cymunedol ac iechyd byd-eang, a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod nyrs sydd newydd gofrestru yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn hybu iechyd ac yn atal salwch a diogelu rhagddo.

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:

**2.1** deall a chymhwyso nodau ac egwyddorion hybu iechyd, atal salwch a diogelu rhagddo, a gwella iechyd wrth ymgysylltu â phobl

**2.2** dangos gwybodaeth am epidemioleg, demograffeg, genomeg a phenderfynyddion ehangach iechyd, salwch a lles a chymhwyso hyn at ddealltwriaeth o batrymau byd-eang o ran canlyniadau iechyd a lles

**2.3** deall y ffactorau a all arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd

**2.4** nodi ac achub ar bob cyfle priodol, gan wneud addasiadau rhesymol lle bo angen, i drafod effaith ysmygu, y defnydd o sylweddau ac alcohol, ymddygiadau rhywiol, deiet ac ymarfer corff ar iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol, yng nghyd-destun amgylchiadau unigol pob

**2.5** hyrwyddo a gwella canlyniadau iechyd meddyliol, corfforol ac ymddygiadol, ynghyd â chanlyniadau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd, drwy ddeall ac egluro egwyddorion, ymarfer a sail dystiolaeth rhaglenni sgrinio iechyd

**2.6** deall pwysigrwydd profiadau blynyddoedd cynnar a phlentyndod ac effaith bosibl hynny ar ddewisiadau mewn bywyd, ac iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol

**2.7** deall ac esbonio cyfraniad dylanwadau cymdeithasol, llythrennedd iechyd, amgylchiadau unigol, ymddygiadau a dewisiadau o ran ffordd o fyw, at ganlyniadau iechyd meddyliol, corfforol ac ymddygiadol

**2.8** esbonio a dangos y defnydd o'r dulliau diweddaraf o newid ymddygiad er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio eu cryfderau a'u harbenigedd a gwneud dewisiadau hyddysg tra'n rheoli eu hiechyd eu hunain a gwneud addasiadau o ran ffordd o fyw

**2.9** defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfder i gynorthwyo a galluogi pobl i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch eu gofal er mwyn rheoli heriau iechyd a byw bywydau bodlon a chyflawn o fewn y cyfyngiadau a achosir gan lai o allu, salwch ac anabledd

**2.10** darparu gwybodaeth mewn ffyrdd hygyrch er mwyn helpu pobl i ddeall eu hiechyd, dewisiadau mewn bywyd, salwch a gofal, a gwneud penderfyniadau yn eu cylch

**2.11** hybu iechyd ac atal salwch drwy ddeall ac egluro wrth bobl egwyddorion pathogenesis, imiwnoleg a'r sail dystiolaeth ar gyfer imiwneiddio, brechu ac imiwnedd poblogaeth

**2.12** diogelu iechyd drwy ddeall a chymhwyso egwyddorion atal a rheoli heintiau, gan gynnwys goruchwylio clefydau trosglwyddadwy a systemau stiwardiaeth ac ymwrthedd i gyffuriau.

# Platfform 3
## Asesu anghenion a chynllunio gofal

Mae nyrsys cofrestredig yn blaenoriaethu anghenion pobl wrth asesu ac adolygu eu hanghenion meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol. Maent yn defnyddio gwybodaeth a gesglir yn ystod asesiadau er mwyn nodi'r blaenoriaethau a'r gofynion ar gyfer ymyriadau a chymorth nyrsio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn datblygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn ystyried eu hamgylchiadau, eu nodweddion a'u dewisiadau.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod nyrs sydd newydd gofrestru yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn asesu ac yn gweithredu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion.

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:

**3.1** dangos a chymhwyso gwybodaeth am ddatblygiad dynol o adeg cenhedlu hyd at farwolaeth wrth gynnal asesiadau nyrsio llawn a chywir sy'n canolbwyntio ar unigolion a datblygu cynlluniau gofal priodol

**3.2** dangos a chymhwyso gwybodaeth am systemau'r corff a homeostasis, anatomi a ffisioleg ddynol, bioleg, genomeg, ffarmacoleg, a gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol wrth gynnal asesiadau nyrsio llawn a chywir sy'n canolbwyntio ar unigolion a datblygu cynlluniau gofal priodol

**3.3** dangos a chymhwyso gwybodaeth am gyflyrau iechyd meddyliol, corfforol, ymddygiadol a gwybyddol cyffredin, y defnydd o feddyginiaethau a thriniaethau wrth gynnal asesiadau llawn a chywir o anghenion gofal nyrsio ac wrth ddatblygu, blaenoriaethu ac adolygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion

**3.4** deall a chymhwyso gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar unigolion, gan ddangos y caiff gwaith asesu, cynllunio, gwneud penderfyniadau a phennu nodau ei rannu wrth weithio gyda phobl, eu teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau o bob oedran

**3.5** dangos y gallu i brosesu'n gywir yr holl wybodaeth a gesglir yn ystod y broses asesu er mwyn nodi anghenion gofal nyrsio unigol a datblygu cynlluniau seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer ymyriadau nyrsio â nodau cytûn

**3.6** asesu'n effeithiol gallu unigolyn i wneud penderfyniadau am ei ofal ei hun a rhoi neu wrthod caniatâd

**3.7** deall a chymhwyso'r egwyddorion a'r prosesau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol

**3.8** deall a chymhwyso'r cyfreithiau perthnasol mewn perthynas â galluedd meddyliol sy'n berthnasol i'r wlad rydych yn ymarfer ynddi, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phobl nad oes ganddynt y gallu eu hunain

**3.9** adnabod ac asesu pobl sy'n wynebu risg o niwed a'r sefyllfaoedd a all eu rhoi mewn perygl, gan sicrhau y cymerir camau prydlon i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed

**3.10** dangos y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn adnabod ac asesu pobl sy'n dangos arwyddion o hunan-niwed a/neu syniadaeth hunanladdol

**3.11** cynnal archwiliadau rheolaidd, gan ddehongli a rhannu canfyddiadau fel sy'n briodol

**3.12** dehongli canlyniadau archwiliadau rheolaidd, gan gymryd camau prydlon lle bo angen drwy weithredu ymyriadau priodol, gofyn am archwiliadau ychwanegol neu uwchgyfeirio'r mater i eraill

**3.13** dangos dealltwriaeth o gydafiacheddau a gofynion diwallu anghenion nyrsio a gofal cymdeithasol cymhleth pobl wrth flaenoriaethu cynlluniau gofal

**3.14** nodi ac asesu anghenion pobl a'u teuluoedd o ran gofal diwedd bywyd, gan gynnwys gofynion gofal lliniarol a gwneud penderfyniadau ynghylch eu triniaeth a'u gofal

**3.15** dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr er mwyn monitro, gwerthuso ac ailasesu'n barhaus effeithiolrwydd pob cynllun gofal nyrsio cytûn a gofal, gan rannu'r broses o wneud penderfyniadau, ailaddasu nodau cytûn, a dogfennu cynnydd a'r penderfyniadau a wneir

**3.16** dangos gwybodaeth am bryd a sut i atgyfeirio unigolion yn ddiogel i weithwyr proffesiynol neu wasanaethau eraill ar gyfer ymyriadau neu gymorth clinigol.

# Platfform 4
## Darparu a gwerthuso gofal

Mae nyrsys cofrestredig yn arwain y gwaith o ddarparu ymyriadau nyrsio diogel a thrugarog sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn sicrhau bod y gofal a ddarperir ganddynt ac a ddirprwyir ganddynt yn canolbwyntio ar unigolion ac yn cyrraedd safon uchel yn gyson. Maent yn cynorthwyo pobl o bob oedran mewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr er mwyn gwerthuso p'un a yw'r gofal yn effeithiol a ph'un a yw'r nodau o ran gofal wedi'u cyflawni yn unol â'u dymuniadau, yr hyn sy'n well ganddynt a'u dewis ganlyniadau.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod nyrs sydd newydd gofrestru yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn darparu ac yn gwerthuso gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion.

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:

**4.1** dangos a chymhwyso dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl a sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod eu hanghenion o ran diogelwch, urddas, preifatrwydd, cysur a chwsg yn cael eu diwallu, gan weithredu fel model rôl i eraill wrth ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth

**4.2** gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn annog gwneud penderfyniadau a rennir er mwyn helpu unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i reoli eu gofal eu hunain pan fo'n briodol

**4.3** dangos y wybodaeth, y sgiliau cyfathrebu a'r sgiliau rheoli cydberthnasau sydd eu hangen er mwyn rhoi gwybodaeth gywir i bobl, teuluoedd a gofalwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl amrywiaeth o ymyriadau

**4.4** dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cynorthwyo pobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl, ymddygiadol, gwybyddol a dysgu cyffredin, a gweithredu fel model rôl i eraill wrth ddarparu ymyriadau nyrsio o safon uchel er mwyn diwallu anghenion pobl

**4.5** dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cynorthwyo pobl gyda'u cyflyrau iechyd corfforol cyffredin, eu defnydd o feddyginiaeth a thriniaethau a gweithredu fel model rôl i eraill wrth ddarparu ymyriadau nyrsio o safon uchel wrth ddiwallu anghenion pobl

**4.6** dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i weithredu fel model rôl i eraill wrth ddarparu gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n ymwneud â maethu, hydradu ac iechyd y bledren a'r coluddyn

**4.7** dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i weithredu fel model rôl i eraill wrth ddarparu gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n ymwneud â symudedd, hylendid, gofal y geg, gofal clwyfau a chyfanrwydd y croen

**4.8** dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn nodi a chychwyn ymyriadau priodol a fydd yn cynorthwyo pobl â symptomau cyffredin, gan gynnwys gorbryder, dryswch, anesmwythder a phoen

**4.9** dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn blaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig i bobl a'u teuluoedd wrth ddarparu gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar unigolion ar ddiwedd eu bywydau, gan gynnwys gofalu am bobl sy'n marw, eu teuluoedd, yr ymadawedig a galarwyr

**4.10** dangos y wybodaeth a'r gallu i ymateb yn rhagweithiol ac yn brydlon i arwyddion dirywiad neu ofid o ran iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol a defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gwneud penderfyniadau clinigol cadarn

**4.11** dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cychwyn a gwerthuso ymyriadau priodol a fydd yn cynorthwyo pobl sy'n dangos arwyddion o hunan-niwed a/neu syniadaeth hunanladdol

**4.12** dangos y gallu i reoli dyfeisiau cyffredin a chyflawni gweithdrefnau nyrsio mewn modd hyderus er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar unigolion

**4.13** dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gyflawni gweithdrefnau cymorth cyntaf a chymorth bywyd sylfaenol

**4.14** dangos egwyddorion rhoi ac optimeiddio meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol a dangos medrusrwydd a chywirdeb wrth gyfrifo dognau meddyginiaethau a ragnodir

**4.15** dangos gwybodaeth am ffarmacoleg a'r gallu i adnabod effeithiau meddyginiaethau, alergeddau, sensitifrwydd i gyffuriau, sgil-effeithiau, gwrtharwyddion, anghydnawseddau, adweithiau andwyol, camgymeriadau rhagnodi ac effaith polyfferylliaeth a'r defnydd o feddyginiaeth dros y cownter

**4.16** dangos gwybodaeth am ddulliau o greu presgripsiynau, rôl rhagnodi cyffredinol, di-drwydded ac all-drwydded a dealltwriaeth o'r risgiau posibl sydd ynghlwm wrth y dulliau hyn o ragnodi

**4.17** cymhwyso gwybodaeth am ffarmacoleg at ofal pobl, a dangos y gallu i ddatblygu i ennill cymhwyster rhagnodi ar ôl cofrestru

**4.18** dangos y gallu i gydlynu a chyflawni'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth gynllunio a rheoli'r gwaith rheolaidd o ryddhau cleifion yn ddiogel o'r ysbyty neu drosglwyddo pobl rhwng lleoliadau gofal.

# Platfform 5

## Arwain a rheoli gofal nyrsio a gweithio mewn timau

Mae nyrsys cofrestredig yn darparu arweinyddiaeth drwy weithredu fel model rôl ar gyfer arfer gorau wrth ddarparu gofal nyrsio. Maent yn gyfrifol am reoli gofal nyrsio ac maent yn atebol am ddirprwyo a goruchwylio gofal a ddarperir gan eraill yn y tîm, gan gynnwys gofalwyr lleyg, yn briodol. Maent yn chwarae rhan ragweithiol a chyfartal yn y tîm rhyngddisgyblaethol, gan gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gydweithwyr.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod gan nyrs sydd newydd gofrestru y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn arwain ac yn rheoli gofal nyrsio ac yn gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm rhyngddisgyblaethol.

**Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:**

**5.1** deall egwyddorion gwaith arwain a rheoli effeithiol, a dynameg a diwylliant grŵp a sefydliadol, gan eu cymhwyso at waith tîm a gwneud penderfyniadau

**5.2** deall a chymhwyso egwyddorion ffactorau dynol, ffactorau amgylcheddol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfder wrth weithio mewn tîm

**5.3** deall egwyddorion a phrosesau rheoli perfformiad a sut mae'r rhain yn gymwys i'r tîm nyrsio

**5.4** dangos dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a chwmpas ymarfer pob aelod o'r tîm nyrsio a rhyngddisgyblaethol, a sut i wneud y defnydd gorau o gyfraniadau eraill sydd ynghlwm wrth ddarparu gofal

**5.5** arwain a rheoli gofal nyrsio grŵp o bobl yn ddiogel ac yn effeithiol, gan ddangos y gallu i flaenoriaethu, dirprwyo a neilltuo cyfrifoldebau gofalu priodol i eraill sydd ynghlwm wrth ddarparu gofal

**5.6** dangos y potensial i arwain drwy ddangos y gallu i dywys, cefnogi ac ysgogi unigolion a rhyngweithio'n hyderus ag aelodau eraill o'r tîm gofal

**5.7** dangos y gallu i fonitro a gwerthuso ansawdd y gofal a ddarperir gan eraill yn y tîm a gofalwyr lleyg

**5.8** cynorthwyo a goruchwylio myfyrwyr wrth iddynt ddarparu gofal nyrsio, gan hyrwyddo technegau myfyrio a rhoi adborth adeiladol, a gwerthuso a chofnodi eu perfformiad

**5.9** dangos y gallu i herio a rhoi adborth adeiladol ar y gofal a ddarperir gan eraill yn y tîm, a'u cynorthwyo i nodi anghenion dysgu unigol a chytuno arnynt

**5.10** cyfrannu at weithgareddau goruchwylio a myfyrio tîm er mwyn hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer a gwasanaethau

**5.11** defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol ac yn gyfrifol er mwyn cael mynediad at wybodaeth a data, eu mewnbynnu, eu rhannu a'u cymhwyso o fewn timau a rhwng asiantaethau

**5.12** deall ffyrdd o ddylanwadu ar newid sefydliadol a pholisïau cyhoeddus, gan ddangos datblygiad ymwybyddiaeth a sgiliau gwleidyddol.

# Platfform 6
## Gwella diogelwch ac ansawdd gofal

Mae nyrsys cofrestredig yn gwneud cyfraniad allweddol at y gwaith o fonitro gofal a thriniaeth yn barhaus a gwella ansawdd gofal a thriniaeth er mwyn gwella canlyniadau iechyd a phrofiadau pobl o ofal nyrsio a gofal cysylltiedig. Maent yn asesu risgiau i ddiogelwch neu brofiadau ac yn cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan roi diddordebau, anghenion a dewisiadau pobl yn gyntaf.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod gan nyrs sydd newydd gofrestru y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn cyfrannu at agendâu gwella monitro risg ac ansawdd gofal.

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:

**6.1** deall a chymhwyso egwyddorion deddfwriaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch a chynnal amgylcheddau gwaith a gofal diogel

**6.2** deall y gydberthynas rhwng lefelau staffio diogel, cymysgedd priodol o sgiliau, diogelwch ac ansawdd gofal, adnabod y risgiau i ddiogelwch y cyhoedd ac ansawdd gofal, ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol

**6.3** cydymffurfio â fframweithiau lleol a chenedlaethol, deddfwriaeth a rheoliadau ar gyfer asesu, rheoli a rhoi gwybod am risgiau, gan sicrhau y cymerir y camau priodol

**6.4** dangos dealltwriaeth o egwyddorion methodolegau gwella, cymryd rhan ym mhob cam o weithgarwch archwilio a nodi strategaethau gwella ansawdd priodol

**6.5** dangos y gallu i gynnal asesiadau risg yn gywir mewn amrywiaeth o leoliadau gofal, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau asesu a gwella cyfoes

**6.6** nodi'r angen i wneud gwelliannau ac ymateb yn rhagweithiol i beryglon posibl a all effeithio ar ddiogelwch pobl

**6.7** deall sut y gellir gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd gofal nyrsio yn ymarferol a dangos sut i ddefnyddio canfyddiadau gwerthuso ac archwilio darparu gwasanaethau er mwyn cyflawni gwelliant parhaus

**6.8** dangos dealltwriaeth o sut i nodi a rhoi gwybod am achosion y bu bron iddynt ddigwydd, digwyddiadau critigol, digwyddiadau difrifol a digwyddiadau andwyol difrifol a myfyrio'n feirniadol arnynt er mwyn dysgu oddi wrthynt a dylanwadu ar eu hymarfer yn y dyfodol

**6.9** gweithio gyda phobl, eu teuluoedd, gofalwyr a chydweithwyr er mwyn datblygu strategaethau gwella ansawdd a diogelwch effeithiol, gan rannu adborth a dysgu o ganlyniadau a phrofiadau cadarnhaol, camgymeriadau a chanlyniadau a phrofiadau andwyol

**6.10** cymhwyso dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng osgoi risg a rheoli risg a sut i osgoi peryglu canlyniadau ansawdd gofal ac iechyd

**6.11** cydnabod yr angen i dderbyn a rheoli ansicrwydd, a dangos dealltwriaeth o strategaethau sy'n datblygu hunan-wydnwch a gwydnwch mewn eraill

**6.12** deall rôl nyrsys cofrestredig a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill sydd â phrofiad a statws gwahanol wrth reoli a blaenoriaethu camau gweithredu a goal os bydd digwyddiad difrifol.

# Platfform 7
## Cydlynu gofal

Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o gydlynu a rheoli anghenion nyrsio cymhleth ac anghenion gofal integredig pobl ar unrhyw gam o'u bywydau, a rheoli risgiau mewn amrywiaeth o sefydliadau a lleoliadau. Maent yn cyfrannu at brosesau newid sefydliadol drwy fod yn ymwybodol o bolisïau lleol a chenedlaethol.

## Deilliannau

Bydd y safonau hyfedredd a nodir isod yn sicrhau bod gan nyrs sydd newydd gofrestru y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer ei rôl yn cydlynu ac yn arwain ac yn rheoli anghenion cymhleth pobl mewn sefydliadau a lleoliadau gwahanol.

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu gwneud y canlynol:

**7.1** deall a chymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth, cydweithio a gwaith rhyngasiantaethol ym mhob sector perthnasol

**7.2** deall deddfwriaeth iechyd a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol presennol a'r systemau sy'n rhan o ddylanwadu ar ddatblygu a newid polisïau, gan wahaniaethu lle y bo'n briodol rhwng deddfwrfeydd datganoledig y Deyrnas Unedig

**7.3** deall egwyddorion economeg iechyd a'u perthnasedd i ddirprwyo adnoddau i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol mewn asiantaethau eraill.

**7.4** nodi goblygiadau newidiadau i bolisïau iechyd nawr ac yn y dyfodol i'r proffesiwn nyrsio a phroffesiynau eraill a deall effaith newidiadau i bolisïau ar ddarparu a chydlynu gofal

**7.5** deall a chydnabod yr angen i ymateb i heriau darparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion i bobl â chydafiachedddau ac anghenion gofal cymhleth

**7.6** dangos dealltwriaeth o natur gymhleth darparu gwasanaethau gofal meddyliol, gwybyddol, ymddygiadol a chorfforol mewn ystod eang o leoliadau gofal integredig

**7.7** deall sut i fonitro a gwerthuso ansawdd profiad pobl o ofal cymhleth

**7.8** deall yr egwyddorion a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gynorthwyo pobl a'u teuluoedd lle mae amrywiaeth o anghenion gofal er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fyw mor annibynnol â phosibl ac osgoi ymyriadau diangen ac amharu diangen ar eu bywydau

**7.9** sicrhau bod pobl agored i niwed neu bobl ag anableddau yn cael mynediad i ofal iechyd yn ddiwahân a dangos y gallu i siarad ar eu rhan lle bo angen a gwneud addasiadau rhesymol angenrheidiol i'r gwaith o asesu, cynllunio a darparu eu gofal

**7.10** deall yr egwyddorion a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gynllunio a hwyluso rhyddhau a throsglwyddo pobl yn ddiogel rhwng llwythi achos, lleoliadau a gwasanaethau

**7.11** dangos y gallu i nodi a rheoli risgiau a chymryd camau rhagweithiol er mwyn gwella ansawdd gofal a gwasanaethau lle bo angen

**7.12** dangos dealltwriaeth o'r prosesau sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu achos busnes sylfaenol ar gyfer cyllid gofal ychwanegol, drwy gymhwyso gwybodaeth am gyllid, adnoddau dynol a lefelau staffio diogel

**7.13** dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd arddel ymwybyddiaeth wleidyddol drwy gydol ei gyrfa er mwyn sicrhau y caiff gofal nyrsio cofrestredig cymaint o ddylanwad ac effaith â phosibl ar ansawdd gofal, diogelwch cleifion a chosteffeithiolrwydd.

# **Atodiad A:** Sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau

Caiff y sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau y mae'n rhaid i nyrs sydd newydd gofrestru allu eu dangos er mwyn cyflawni'r deilliannau hyfedredd a amlinellir ym mhrif gorff y ddogfen hon eu nodi yn yr atodiad hwn.

Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol wrth wraidd darparu gofal diogel a thrugarog sy'n canolbwyntio ar unigolion. Rhaid i nyrsys cofrestredig ym mhob maes ymarfer nyrsio allu dangos y gallu i gyfathrebu a rheoli cydberthnasau â phobl o bob oed sydd ag amrywiaeth o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol.

Y rheswm dros hyn yw bod angen ystod eang o sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau er mwyn sicrhau bod unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau am ofal ac yn eu deall. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol wrth wneud asesiadau cywir o anghenion gofal, sy'n ystyried ffactorau diwylliannol, a sicrhau bod anghenion, blaenoriaethau, arbenigedd a dewisiadau pobl bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried.

Os bydd gan bobl anghenion cyfathrebu arbennig neu anabledd, rhaid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn cyfleu, darparu a rhannu gwybodaeth mewn ffordd sy'n sicrhau'r ddealltwriaeth a'r ymgysylltiad gorau posibl ac yn sicrhau y cânt yr un mynediad â phawb arall i ofal o ansawdd uchel.

Mae'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau yn yr atodiad hwn mewn pedair rhan. Am y rhesymau uchod, mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob maes ymarfer nyrsio ac yn gymwys i bob lleoliad gofal. Disgwylir y byddai'r sgiliau hyn yn cael eu hasesu yn newis faes ymarfer myfyriwr.

Mae'r sgiliau a amlinellir yn **Atodiad A, Adran 3: Sgiliau cyfathrebu arfer gorau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dulliau o ddarparu ymyriadau therapiwtig** hefyd yn gymwys i bob nyrs gofrestredig, ond bydd y lefel o arbenigedd a gwybodaeth sydd ei hangen yn amrywio yn dibynnu ar y dewis faes ymarfer. Rhaid bod nyrsys cofrestredig yn gallu dangos y sgiliau hyn i lefel briodol ar gyfer eu maes neu feysydd ymarfer bwriadedig.

Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu dangos y sgiliau canlynol yn ddiogel:

**1. Sgiliau cyfathrebu sylfaenol ar gyfer asesu, cynllunio, darparu a rheoli gofal nyrsio arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

**1.1** gwrando ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, eu hadnabod ac ymateb iddynt

**1.2** defnyddio awgrymiadau ac atgyfnerthu cadarnhaol llafar neu nad yw'n llafar

**1.3** defnyddio dulliau cyfathrebu priodol nad ydynt yn rhai llafar gan gynnwys cyffwrdd, cyswllt llygad a gofod personol

**1.4** gwneud defnydd priodol o gwestiynau agored a chaeedig

**1.5** defnyddio technegau sgwrsio gofalgar

**1.6** sicrhau bod eraill yn deall a defnyddio technegau egluro

**1.7** bod yn ymwybodol o duedd anymwybodol eich hun wrth gyfathrebu

**1.8** ysgrifennu cofnodion a dogfennaeth gywir, clir a dealladwy

**1.9** mewn ffordd hyderus ac eglur, cyflwyno a rhannu gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag unigolion a grwpiau

**1.10** dadansoddi a chofnodi a rhannu'n glir wybodaeth a data digidol

**1.11** darparu gwybodaeth a chyfarwyddiadau clir ar lafar, yn ddigidol neu'n ysgrifenedig wrth ddirprwyo neu drosglwyddo cyfrifoldeb am ofal

**1.12** cydnabod yr angen i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a deunydd wedi'i gyfieithu a hwyluso hynny.

**2. Dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyfathrebu er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth atal salwch a rheoli eu gofal**

**2.1** rhannu gwybodaeth a sicrhau y deellir achosion, goblygiadau a thriniaeth amrywiaeth o gyflyrau iechyd cyffredin gan gynnwys gorbryder, iselder, colli cof, diabetes, dementia, clefyd anadlu, clefyd y galon, clefyd niwrolegol, canser, problemau croen, diffygion imiwnedd, seicosis, strôc arthritis

**2.2** defnyddio iaith glir a deunyddiau ysgrifenedig priodol, gan wneud addasiadau rhesymol lle bo'n briodol, fel bod pobl yn deall yn glir beth sydd wedi achosi eu cyflwr iechyd a goblygiadau eu gofal a thriniaeth

**2.3** adnabod namau ar y synhwyrau ym mhob gohebiaeth a darparu ar eu cyfer

**2.4** cefnogi a rheoli'r defnydd o gymhorthion cyfathrebu personol

**2.5** nodi'r angen am amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu amgen, a'u rheoli

**2.6** ailadrodd a defnyddio strategaethau atgyfnerthu cadarnhaol

**2.7** asesu cymhelliant a'r gallu i newid ymddygiad ac egluro cydberthnasau achos ac effaith sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau risg iechyd cyffredin gan gynnwys smygu, gordewdra, arferion rhywiol, alcohol a chamddefnyddio sylweddau

**2.8** darparu gwybodaeth ac esboniadau i bobl, teuluoedd a gofalwyr ac ateb cwestiynau am eu triniaeth a'u gofal a ffyrdd posibl o atal salwch er mwyn meithrin dealltwriaeth

**2.9** cael sgyrsiau anodd, gan gynnwys rhannu newyddion drwg, a chefnogi pobl sy'n teimlo'n agored i niwed yn emosiynol neu'n gorfforol, neu mewn trallod, gan gyfleu trugaredd a sensitifrwydd.

## 3. Sgiliau cyfathrebu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dulliau o ddarparu ymyriadau therapiwtig

**3.1** technegau cyfweld cymhellol

**3.2** therapïau seiliedig ar ateb

**3.3** therapïau hel atgofion

**3.4** therapïau siarad

**3.5** strategaethau a thechnegau dad-ddwysáu

**3.6** technegau therapi ymddygiad gwybyddol

**3.7** therapi chwarae

**3.8** strategaethau tynnu sylw a gwyro

**3.9** cymorth i ymddwyn yn gadarnhaol

## 4. Sgiliau cyfathrebu arfer gorau sy’n seiliedig ar dystiolaeth a dulliau o weithio gyda phobl mewn timau proffesiynol

**4.1** Dangos sgiliau goruchwylio, addysgu ac arfarnu perfformiad effeithiol drwy ddefnyddio’r canlynol:

**4.1.1** cyfarwyddiadau clir ac esboniadau wrth oruchwylio, addysgu neu arfarnu eraill

**4.1.2** cyfarwyddiadau clir a sicrhau bod pawb wedi deall wrth ddirprwyo cyfrifoldebau gofalu i eraill

**4.1.3** adborth adeiladol a chlir ar gryfderau a gwendidau a’r potensial i wella

**4.1.4** anogaeth i gydweithwyr sy’n eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer

**4.1.5** cofnodion perfformiad clir

**4.2** Dangos sgiliau rheoli pobl a thimau effeithiol drwy ddefnyddio’r canlynol:

**4.2.1** dulliau seiliedig ar gryfderau o ddatblygu timau a rheoli newid

**4.2.2** gwrando’n astud wrth ymdrin â phryderon a gorbryderon aelodau o’r tîm

**4.2.3** presenoldeb digyffro wrth ymdrin â gwrthdaro

**4.2.4** trategaethau gwrthdaro priodol ac effeithiol

**4.2.5** strategaethau a thechnegau dad-ddwysáu wrth ymdrin â gwrthdaro

**4.2.6** sgiliau cydlynu a llywio effeithiol drwy:

**4.2.6.1** strategaethau negodi priodol

**4.2.6.2** gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol

**4.2.6.3** dulliau priodol o eirioli.

# **Atodiad B:** Gweithdrefnau nyrsio

Caiff y gweithdrefnau nyrsio y mae'n rhaid i nyrs sydd newydd gofrestru allu eu dangos er mwyn cyflawni'r deilliannau hyfedredd a amlinellir ym mhrif gorff y ddogfen hon eu nodi yn yr atodiad hwn.

Rhaid bod nyrs gofrestredig yn gallu cyflawni'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol er mwyn darparu gofal nyrsio trugarog sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar unigolion. Rhaid gofalu am bobl mewn ffordd holistaidd a sicrhau bod gweithdrefnau nyrsio yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n adlewyrchu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac yn sicrhau bod anghenion, blaenoriaethau, arbenigedd a dewisiadau pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried bob amser.

Rhaid i nyrsys cofrestredig ym mhob maes ymarfer ddangos y gallu i ddarparu ymyriadau a chymorth nyrsio i bobl o bob oed sydd angen gweithdrefnau nyrsio, a hynny wrth asesu, diagnosio, trin a gofalu am broblemau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol ac ymddygiadol. Os bydd gan bobl anableddau neu anghenion gwybyddol penodol, rhaid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod pob gweithdrefn yn cael ei chyflawni'n ddiogel.

Caiff y gweithdrefnau nyrsio yn yr atodiad hwn eu cyflwyno mewn dwy ran. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob maes ymarfer nyrsio, er y cydnabyddir y gall fod angen darparu gofal yn wahanol mewn lleoliadau gofal gwahanol. Disgwylir y byddai'r gweithdrefnau hyn yn cael eu hasesu yn newis faes ymarfer myfyriwr, lle bo'n ymarferol.

Mae'r gweithdrefnau a amlinellir yn **Atodiad B, Rhan I: Gweithdrefnau ar gyfer asesu anghenion gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion, adrannau 1 a 2** hefyd yn gymwys i bob nyrs gofrestredig, ond bydd y lefel o arbenigedd a gwybodaeth sydd ei hangen yn amrywio yn dibynnu ar y dewis faes neu feysydd ymarfer. Felly, rhaid bod nyrsys cofrestredig yn gallu dangos y gallu i gyflawni'r gweithdrefnau hyn ar lefel sy'n briodol i'w maes neu feysydd ymarfer bwriadedig.

Ar adeg cofrestru, bydd nyrs gofrestredig yn gallu dangos y gweithdrefnau canlynol yn ddiogel:

## Rhan 1: Gweithdrefnau ar gyfer asesu anghenion pobl sy'n canolbwyntio ar unigolion

**1. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gymryd hanes, arsylwi, adnabod ac asesu'n gywir bobl o bob oed:**

**1.1** statws iechyd a lles meddwl

**1.1.1** arwyddion o ofid meddyliol ac emosiynol neu o fod yn agored i niwed

**1.1.2** statws iechyd a lles gwybyddol

**1.1.3** arwyddion o ofid a nam gwybyddol

**1.1.4** anghenion sy'n seiliedig ar ofid ymddygiadol

**1.1.5** arwyddion o ofid meddyliol ac emosiynol gan gynnwys cynnwrf, ymddygiad ymosodol ac ymddygiad heriol

**1.1.6** arwyddion o hunan-niwed a/neu syniadaeth hunanladdol

**1.2** iechyd a lles corfforol

**1.2.1** symptomau ac arwyddion salwch corfforol

**1.2.2** symptomau ac arwyddion gofid corfforol

**1.2.3** symptomau ac arwyddion dirywiad a sepsis.

## 2. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni'r gweithdrefnau canlynol:

**2.1** cymryd, cofnodi a dehongli arwyddion hanfodol â llaw a chan ddefnyddio dyfeisiau technolegol

**2.2** cyflawni gweithdrefnau gwythïen-bigo a gosod canwla a samplu gwaed, dehongli proffiliau gwaed normal ac annormal cyffredin a nwyon gwaed gwythiennol

**2.3** sefydlu a rheoli archwiliadau electrocardiogram (ECG) rheolaidd a dehongli olion annormal normal y deuir ar eu traws yn gyffredin

**2.4** rheoli a monitro trallwysiadau cyfansoddion gwaed

**2.5** rheoli a dehongli monitorau cardiaidd, pympiau trwytho, monitorau glwcos yn y gwaed a dyfeisiau monitro eraill

**2.6** mesur pwysau a thaldra yn gywir, cyfrifo mynegai crynswth corfforol ac adnabod ystod iach a darlleniadau isel/uchel sy'n arwyddocaol yn glinigol

**2.7** cynnal asesiad systemau corff cyfan gan gynnwys statws anadlol, cylchredol, niwrolegol, cyhyrysgerbydol, cardiofasgwlaidd a statws y croen

**2.8** gwrando ar y frest a dehongli'r canfyddiadau

**2.9** casglu ac arsylwi ar sbesimenau sbwtwm, wrin, carthion a chwŷd, gan gynnal dadansoddiadau rheolaidd a dehongli'r canfyddiadau

**2.10** mesur a dehongli lefelau'r glwcos yn y gwaed

**2.11** adnabod ac ymateb i arwyddion o bob math o cam-drin

**2.12** cynnal a dehongli arsylwadau ac asesiadau niwrolegol, gan ymateb iddynt hefyd

**2.13** nodi arwyddion o ddirywiad a sepsis ac ymateb iddynt

**2.14** rhoi cymorth cyntaf iechyd meddwl sylfaenol

**2.15** rhoi cymorth cyntaf iechyd corfforol sylfaenol

**2.16** adnabod a rheoli trawiadau, tagu ac anaffylacsis, gan gynnig cymorth bywyd sylfaenol priodol

**2.17** adnabod ac ymateb i ymddygiad heriol, gan ddarparu gweithgarwch dal priodol ac ataliaeth.

## Rhan 2: Gweithdrefnau ar gyfer cynllunio, darparu a rheoli gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar unigolion

### 3. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth o ran gorffwys, cysgu, bod yn gysurus a chynnal urddas, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu amdano'i hun a chychwyn ymyriadau priodol

**3.1** arsylwi ar lefelau o gysur a phoen a phatrymau gorffwys a chysgu a'u hasesu

**3.2** defnyddio technegau priodol i wneud y gwely gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy'n anymwybodol neu sydd â symudedd cyfyngedig

**3.3** defnyddio technegau lleoli a rhyddhau pwysedd priodol

**3.4** cymryd camau priodol i sicrhau preifatrwydd ac urddas drwy'r amser

**3.5** cymryd camau priodol i leihau poen neu anesmwythder

**3.6** cymryd camau priodol i leihau blinder, insomnia a chefnogi hylendid gorffwys a chysgu gwell.

### 4. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth drwy hylendid a chynnal cyfanrwydd y croen, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol

**4.1** arsylwi ar statws y croen a hylendid, gan ei asesu a'i optimeiddio, a phennu'r angen am gymorth ac ymyriadau

**4.2** defnyddio dulliau cyfoes o asesu cyfanrwydd y croen a defnyddio cynhyrchion priodol i atal neu reoli methiant y croen

**4.3** asesu anghenion ymolchi, cael bath, eillio a gwisgo a darparu cymorth priodol yn hynny o beth

**4.4** nodi a rheoli cosi poenus a brech ar y croen

**4.5** asesu anghenion gofal y geg, gofal deintyddol, gofal llygaid a gofal ewinedd, gan ddarparu'r gofal priodol yn hynny o beth, a phenderfynu pryd mae angen atgyfeirio'r claf

**4.6** defnyddio technegau aseptig wrth ofalu am glwyfau gan gynnwys rhwymiadau, rhwymau cywasgu, tynnu pwythiadau, a chau-sugno

**4.7** defnyddio technegau aseptig wrth reoli prosesau clwyfau a draenio

**4.8** asesu pyrecsia a hypothermia, ymateb iddynt a'u rheoli'n effeithiol.

**5. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth o ran maethu a hydradu, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol**

**5.1** arsylwi ar statws maethu a hydradu, gan ei asesu a'i optimeiddio, a phennu'r angen am gymorth ac ymyriadau

**5.2** defnyddio adnoddau asesu maeth cyfoes

**5.3** helpu i fwyta ac yfed a defnyddio cymhorthion bwyta ac yfed priodol

**5.4** cofnodi faint o hylif sy'n mynd i mewn i'r corff ac yn dod allan ohono, ac ymateb i ddadhydradu neu ddargadw dŵr a'u rheoli

**5.5** nodi cyfog a chwydu, ymateb iddynt a'u rheoli

**5.6** gosod, rheoli a thynnu tiwbiau yn y geg/trwyn/gastrig

**5.7** rheoli maethu a hydradu artiffisial gan ddefnyddio llwybrau geneuol, ymysgarol a mamol

**5.8** rheoli'r broses o roi hylifau IV

**5.9** rheoli pympiau a dyfeisiau trwytho hylif a maethol.

**6. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth o ran iechyd y bledren a'r coluddyn, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol.**

**6.1** arsylwi ar y lefel o ymataliaeth wrinol a choluddol, a'i hasesu, er mwyn pennu'r angen am gymorth ac ymyriadau o ran mynd i'r tŷ bach, cynnal urddas a phreifatrwydd a rheoli'r defnydd o gymhorthion priodol

**6.2** dewis a defnyddio cynhyrchion ymataliaeth priodol; gosod, rheoli a thynnu cathetrau i bawb; a helpu i hunangathetreiddio pan fo angen

**6.3** rheoli draenio'r bledren

**6.4** asesu patrymau'r bledren a'r coluddyn er mwyn adnabod rhwymedd, dolur rhydd a dargadw wrinol ac ysgarthol ac ymateb iddynt

**6.5** rhoi enemâu a thawddgyffuriau rhefrol a chynnal archwiliadau rhefrol a gwaredu â llaw pan fo'n briodol

**6.6** darparu gofal stoma gan nodi a defnyddio technegau a chynhyrchion priodol.

**7. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth o ran symudedd a diogelwch, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol**

**7.1** arsylwi ar adnoddau asesu risg seiliedig ar dystiolaeth, a'u defnyddio, er mwyn pennu'r angen am gymorth ac ymyriadau o ran symudedd a diogelwch, a nodi a rheoli'r risg o gwympo gan ddefnyddio dulliau asesu risg arfer gorau

**7.2** defnyddio amrywiaeth o dechnegau symud a thrafod a chymhorthion symudedd cyfoes

**7.3** defnyddio cyfarpar symud a thrafod priodol er mwyn cynorthwyo pobl â phroblemau symud

**7.4** defnyddio technegau a dyfeisiau diogelwch priodol.

**8. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth anadlol, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol**

**8.1** arsylwi ar yr angen am ymyriadau, ei asesu, ac ymateb i anesmwythder, cynnwrf a phrinder anadl gan ddefnyddio ymyriadau priodol

**8.2** rheoli'r broses o ddarparu ocsigen gan ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau a dulliau arfer gorau

**8.3** cymryd a dehongli mesuriadau ocsimetrig a llif uchaf

**8.4** defnyddio technegau sugno trwynol a geneuol priodol

**8.5** rheoli dyfeisiau anadlu, lleithyddion a nebiwlyddion

**8.6** rheoli prosesau a chyfarpar anadlu.

**9. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth o ran atal a rheoli heintiau, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol**

**9.1** arsylwi ar risgiau haint posibl, eu hasesu ac ymateb iddynt yn gyflym gan ddefnyddio canllawiau arfer gorau

**9.2** defnyddio protocolau rhagrybuddio safonol

**9.3** defnyddio technegau aseptig, nad ydynt yn cyffwrdd, effeithiol

**9.4** defnyddio cyfarpar diogelu personol priodo

**9.5** rhoi gweithdrefnau ynysu ar waith

**9.6** defnyddio technegau hylendid dwylo seiliedig ar dystiolaeth

**9.7** diheintio cyfarpar a'r amgylchedd yn ddiogel

**9.8** defnyddio a gwaredu gwastraff, golch ac eitemau miniog yn ddiogel

**9.9** asesu a rheoli dyfeisiau a llinellau meddygol ymwthiol yn ddiogel.

**10. Defnyddio dulliau arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwallu anghenion gofal a chymorth ar ddiwedd bywyd, gan asesu'n gywir a all yr unigolyn fyw'n annibynnol a gofalu am ei hun a chychwyn ymyriadau priodol**

**10.1** arsylwi ar yr angen am ymyriadau gan bobl, teuluoedd a gofalwyr a'i asesu, nodi, asesu ac ymateb yn briodol i symptomau ac arwyddion o ofid nas rheolir gan gynnwys poen, cyfog, syched, rhwymedd, anesmwythder, cynnwrf, gorbryder ac iselder

**10.2** rheoli a monitro effeithiolrwydd meddyginiaeth lleddfu symptomau, pympiau trwytho a dyfeisiau eraill

**10.3** asesu ac adolygu dewisiadau a blaenoriaethau gofal y sawl sy'n marw ynghyd â'u teulu a'u gofalwyr

**10.4** deall a chymhwyso protocolau rhoi organau a meinwe, penderfyniadau blaengynllunio, ewyllysiau byw ac iechyd a phwerau atwrnai parhaol iechyd

**10.5** deall a chymhwyso penderfyniadau DNACPR (na cheisier dadebru cardio-anadlol) a dilysu marwolaeth ddisgwyliedig

**10.6** gofalu am yr ymadawedig a'r galarwyr gan barchu gofynion a phrotocolau diwylliannol.

## 11. Cymwyseddau gweithdrefnol gofynnol ar gyfer rhoi ac optimeiddio meddyginiaethau yn seiliedig ar dystiolaeth gan ddilyn arfer gorau

**11.1** cynnal asesiadau cychwynnol a pharhaus o bobl sy'n derbyn gofal a'u gallu i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain

**11.2** cydnabod y gwahanol lwybrau gweithdrefnol y gellir rhagnodi, cyflenwi, a rhoi meddyginiaethau oddi tanynt; a'r cyfreithiau, polisïau, rheoliadau a chanllawiau sy'n eu hategu

**11.3** defnyddio egwyddorion rhagnodi diogel o bell a chyfarwyddiadau rhoi meddyginiaethau

**11.4** cyfrifo cyffuriau yn gywir ar gyfer amrywiaeth o feddyginiaethau

**11.5** cynnal gwiriadau cywir, gan gynnwys trawsgrifio a thitradu, o unrhyw gyfarwyddyd i gyflenwi neu roi cynnyrch meddyginiaethol

**11.6** arfer atebolrwydd proffesiynol wrth sicrhau y rhoddir meddyginiaeth yn ddiogel i'r rheini sy'n derbyn gofal

**11.7** rhoi pigiadau gan ddefnyddio llwybrau mewngyhyrol, o dan y croen a thrwy'r gwythiennau a rheoli cyfarpar pigiadau

**11.8** rhoi meddyginiaethau gan ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau

**11.9** rhoi a monitro meddyginiaethau gan ddefnyddio dyfeisiau mynediad fasgwlaidd a chyfarpar tiwb

**11.10** adnabod ac ymateb i adweithiau andwyol neu annormal i feddyginiaethau

**11.11** storio, cludo a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel.

# Geirfa

Mae'r geiriau yn yr eirfa wedi'u cynnwys i egluro eu hystyr benodol yng nghyd-destun y safonau rheoleiddio hyn. Gallai'r ystyr ehangu ar, neu fod ychydig yn fwy cynnil nag, ystyr y geiriadur ar gyfer rhai o'r geiriau hyn.

**Cam-drin:** rhywbeth a all achosi niwed i unigolyn arall, peryglu ei fywyd, neu dreisio ei hawliau yw camdrin. Gall yr unigolyn sy'n gyfrifol am y camdrin fod yn gwneud hyn yn fwriadol neu efallai nad ydynt yn sylweddoli'r niwed y maent yn ei achosi. Gall y math o niwed fod yn emosiynol, yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn faterol neu'n ariannol, neu gall fod o ganlyniad i esgeulustod.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn:** dull gweithredu lle y mae'r unigolyn wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau a llunio'r cynllun anghenion gofal, gofal nyrsio a thriniaeth.

**Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfder:** mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder yn broses gydweithredol rhwng yr unigolyn sydd wedi'i gefnogi gan wasanaethau a'r rheini sy'n ei gefnogi, lle maent yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniad sy'n manteisio ar gryfderau ac asedau'r unigolyn.

**Ffactorau dynol:** ffactorau amgylcheddol, sefydliadol a gwaith, a nodweddion dynol ac unigol, sy'n dylanwadu ar ymddygiad yn y gwaith mewn ffordd a all effeithio ar iechyd a diogelwch.

**Genomeg:** cangen o fioleg foleciwlaidd sy'n ymwneud â strwythur, swyddogaeth, esblygiad a mapio genomau

**Gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth:** sicrhau y caiff unrhyw ofal a thriniaeth eu rhoi i bobl drwy edrych ar yr hyn y mae ymchwil wedi dangos fydd fwyaf effeithiol. Dylai barn a phrofiad y nyrs a safbwyntiau'r unigolyn gael eu hystyried hefyd wrth ddewis y driniaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus i unigolyn.

**Gonestrwydd:** bod yn agored ac yn onest gyda chleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith.

**Gwrtharwyddion:** cyflwr neu ffactor sy'n rheswm dros atal triniaeth feddygol benodol oherwydd y niwed y byddai'n ei achosi i'r claf.

**Llythrennedd iechyd:** y graddau y gall unigolion gael, prosesu a deall y wybodaeth a'r gwasanaethau iechyd sylfaenol sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iechyd priodol.

**Penderfynyddion iechyd:** yn cynnwys yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd, yr amgylchedd ffisegol a nodweddion ac ymddygiadau'r unigolyn.

**Pobl:** unigolion neu grwpiau sy'n cael gwasanaethau gan nyrsys a bydwragedd, pobl iach a phobl sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, hefyd yn cynnwys addysgwyr a myfyrwyr ac eraill mewn lleoliadau ac yn yr amgylchedd dysgu ymarfer nyrsio a'r tu allan iddynt.

**Pobl sy'n agored i niwed:** y rheini, o unrhyw oedran, sy'n wynebu mwy o risg o niwed nag eraill. Gall hyn ymwneud â nodwedd bersonol neu sefyllfa. Gall y math o niwed fod yn emosiynol, yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn faterol neu'n ariannol, neu gall fod o ganlyniad i esgeulustod.

**Ymyriadau:** unrhyw ymchwiliadau, gweithdrefnau neu driniaethau a roddir i unigolyn.

# Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000* o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7333 9333
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth i Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

*Data a gasglwyd o 30 Medi 2023